

Y Casglwr

Rhif 82

Pris i'r aelodau: £7.50 y flwyddyn • Pris i'r cyhoedd: £3.50 y rhifyn

Gaeaf 2004

Evan Roberts – Y Bob Owen Arall

GANWYD Evan Roberts ar 2 Mehefin 1877 yn Rhif 2 Pfigybont, Llandderfel, ger y Bala. Mab ydoedd i Peter ac Ann Roberts ac yn un o bump o blant – i gyd yn fechgyn. Bu i dri ohonynt farw pan nad oedd Evan prin yn ddyflwydd oed, ond fe ddaeth iddynt dri arall cyn bo hir. Ganwyd ei dad yn Sir Amwythig, ond bu iddo symud i fyw i Langollen yn ieuanc iawn. Creigiwr oedd wrth ei alwedigaeth, yn gweithio yng Nghraig Cletwr. Bu am gyfnod yn gweithio ar y rheilffordd cyn priodi, pan oedd honno yn cael ei hadeiladu o Gorwen i'r Bala, a hynny rhwng 1866 ac 1868 pan y'i hagarwyd. Un o blant Derfel oedd ei fam, a oedd yn wriadwraig cyn ac ar ôl priodi.

Bedyddiwyd Evan Roberts gan Michael D. Jones oherwydd mai ef oedd yn digwydd bod yn Weinidog ar Gapel Rama – Capel yr Annibynwyr yn Llandderfel, ar y pryd. Ar wahân i'r Ysgol Sul, Hen Ysgol y Bwrdd oedd yr unig addysg a gafodd, a'r cwbl yn Saesneg – iaith nas deallodd o gwbl.

Aeth i'r ysgol am y tro cyntaf, ym Medi 1881, yn llaw ei frawd Griffith, a oedd ddwy flynedd a phedwar mis yn hŷn nag ef. Ar ei ffordd yno, rhoddodd un o'r cymdogion daffi triog iddo am fod yn fachgen da yn mynd i'r ysgol. Dyma atgofion Evan Roberts am y digwyddiad,


'Cyn cychwyn, cefais fy molchi'n lan a'm gwisgo'n dwi a threfnus mewn ffedog a phais a brat gwyn dros y cwbl. Mewn gwisg felly y gwisgid y bechgyn i gyd o'r bron y' pryd hwnnw hyd nes y byddent oddeutu pump i chwech oed. Ac yn fynych ddiagon, y pryd hwnnw, gadewid gwallt y bechgyn i dyfu'n laes ac i hofran i lawr y gwegil fel rhubannau cyrliog ac nid harodd fyddai gwahaniaethu rhwng bechgyn a genethod gan eu gwisgo mor debyg. Dywedais imi gael fy nghychwyn yn dwi i'r ysgol, ond dychwelais-y tro hwnnw ar fy newydd wedd: yr oedd fy wyneb a'r brat gwyn glan a gefais y bore cyn cychwyn i'r ysgol wedi eu gorchuddio a'r taffi triacl ac yn sicr ddiagon yr oedd lawer mwy o'r taffi ar y brat gwyn a fy wyneb a'm gwallt cyrliog, nac a oedd yn fy mol. Bu rhaid i mi gael extra wash wedi cyrraedd adref ac oherwydd hynny cefais "half term holiday" y diwrnod cyntaf.'

Ni ddysgodd nemor ddim yn yr ysgol, ond er hynny daeth ymysg y goreuon yn yr ysgol mewn Rhifydddeg. Y rheswm am hynny oedd:

'Ond y mae un peth a gofiat yn dda a roddodd i mi lawer o fwynhad. A'r peth hwnnw oedd ffrâm o bren sgwar wedi ei liewio, a phedair neu bump o wifrau ynddo. Ar bob un o'r gwifrau fe geid math o farblis a thyllau drwyddynt fel ac i fod yn hwylyus i'w symud i fyny ac i lawr, a phob un o'r gwifrau yn cynnwys pelennau bychain a hynny o wahanol lewiau. Gan fod y pelennau bychain oedd ar y gwifrau yn cynnwys gwahanol lewiau, trwy eu dosrannu yn hyn a hyn o'r gwahanol lewiau e.e. rhannu un llinell o 10 dyweder yn 7 a 3; lliw arall dyweder yn 6 a 4; ac arall yn 5 a 5; a thrwy wneuthur felly deuais i weld yn gliriach na thrwy geisio dweud wrthyf. Wedi ynnu ymaith 4 o'r 10 gwelwn mai 6 oedd yn weddill a'r un modd 3 o'r 10 yn gadael 7 a y b. Trwy ddysgu hynny deuais yn un o'r goreuon yr

ysgol fel rhifyddwr. Ond prysuraf i dystio eto, os deuais yn un o oreuon yr ysgol gyda rhif, yr oeddwn gyda'r gwaethaf am bopeth arall yno. A'r rheswm pennaf am hynny, trwy'r Saesneg yn unig y dysgid ni, ac ni ddeallwn innau air o'r hyn a ddywedai'r athro wrthyf.'

Ac yntau ar drothwy ei 14 oed, cafodd swydd yn ffatri wla'n Cefnddwysarn. Credai iddo ddysgu mwy yn ystod ei gyfnod yn gweithio yno na wnaeth o gwbl yn yr ysgol. Yn 1906 priododd ag Ellen Davies a bu iddynt ddau o blant-Eirianwen, a anwyd yn 1908, a Tegwyn a anwyd yn 1911. Bu'n gweithio yn y ffatri wla'n nes i'w iechyd dorri yn y flwyddyn 1913. Bu yn bur wael am flwyddyn, ac yn ystod



Evan Roberts (1877-1977) wrth ei lyfrau.

1914, gwaethygodd ei iechyd a bu'n orweddiog am oddeutu pedair blynedd.

Fel crythâi, dechreuodd gymryd ar ddarllen ac ysgrifennu. Prin iawn oedd y nifer o lyfrau oedd ganddo yr adeg hynny, ond ymhen blynnyddoedd casglodd lawer o lawysgrifau a llyfrau prin a gwerthfawr. Tynnodd y perllau oedd ganddo liaws o lenorion ac athrawon enwocaf ein cenedl ato. Bu Evan Roberts yn gymorth i lawer, yn fyfyrwyr ymchwil, ddarlithwyr ac athrawon. Bu hefyd yn cystadlu tipyn ar draethodau o dan feirniaid fel Henry Ruddy, y Dr Miall Edwards a Syr Ifor Williams, a chafodd gryn lwyddiant ac anogaeth i barhau i chwilota ganddynt.

Ysgrifennodd i liaws o newyddiaduron Cymreig, megis Y Genedl, a Seren y Bala, lle bu ganddo golofn wythnosol o dan yr enw 'Ysgrepan y Lloffwr', ac i nifer o gylchgronau misol, ac i gylchgrawn Cymdeithas Hanes Sir Feirionnydd. Fe roddai anerchiadau lu, hefyd. Daeth i adnabod rhai o brif ysgolheigion a llenorion y dydd, pobl fel y Dr. J.

Lloyd Williams, Dr. R. T. Jenkins a Dr Iorwerth Peate, Gwenallt, y Dr Tom Richards, T. E. Nicholas, Syr Ifor Williams, John Cowper Powys a J. Redwood Anderson ac eraill, a hwythau yn eu tro yn cydnabod eu dyled iddo yn eu llyfrau. Cyfrannodd i'r Bywgraffiadur Cymreig, ac ar gais y golygydd E. D. Jones, bu'n cywiro nifer o wallau ffeithiol a gaed ynddynt:

Yn 1928 cyhoeddodd ei gyfrol, o dan y teitl, *Casgliad o Enwau Lleoedd yn Mhlwyf Llandderfel a'u Hystyron*, ynghyd â *Diwydiannau Coll Pllwyf Llandderfel*. Ffrwyth dau draethawd buddugol yn Eisteddfod Plant Derfel 1925 ac 1928 oedd sail y llyfr. Yn ei ragair mae'r Athro D. Miall Edwards yn ei ganmol am ei ddiwydrwydd o dan amodau anodd iawn:

'Mae'r llyfr hwn yn glod mawr iddo, yn arbennig pan ystyrier ei ansanteision. Ni dderbyniodd addysg mewn nac ysgol ganol na choleg. Heblaw hynny, bu am fflwyddoedd bellach yn gystuddiol ei iechyd ac analluog i weithio am ei fara beunyddiol. Yn ystod tymor maith ei afiechyd plaser mawr i mi a llawer eraill fu guylho ei gynydd cyson a thrawiadol mewn gwahanol ganghennau o ddiwylliant a gwybodaeth. Datblygodd i fod yn ddarlennwr eithriadol o eang ac yn chwiltorwr dyfal ac eiddgar. Daeth hefyd i fod yn llenor o gryn fedr, a chyfrannodd ysgrifau diddorol i gylchgronau Cymru, yn bennaf ar faterion ynglyn â hanes lleol.'

Cawn fwy o hanes Evan Roberts yn y rhifyn nesaf.